



Cefnogi athrawon i fabwysiadu dulliau lluosieithog mewn addysg ieithoedd yng Nghymru



Awdur: Dr Elin Arfon

Wrth i athrawon ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru adrodd ar eu profiadau o ddulliau lluosieithog wrth addysgu, mae ein hymchwil yn datgelu heriau sylweddol sydd eto i'w taclo cyn y gellir gwireddu gweledigaeth lluosieithog y Cwricwlwm i Gymru.

Cyflwyniad

Bwriad y briff hwn ydy hysbysu trafodaethau adeiladol ynglŷn â dulliau lluosieithog mewn dysgu ac addysgu ieithoedd yn y **Cwricwlwm i Gymru** 3 i 16 oed o 2022, o gofio yr hyrwyddir 'dull amlieithog a lluosieithog' yn benodol yn y maes cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol: **Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Mae dulliau lluosieithog wrth ddysgu ac addysgu iaith yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu gallu ieithyddol a diwylliannol ar gyfer dysgu, yn ogystal â hyrwyddo cysylltiadau rhwng ieithoedd a diwylliannau. Yn y Cwricwlwm i Gymru, fe anogir synergedd rhwng y Gymraeg, Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol fel pynciau o fewn yr un maes cwricwlwm.^{1,2}

Mae'r papur briffio'n tynnu ar ganfyddiadau astudiaeth a archwiliodd gredoau athrawon ieithoedd Rhyngwladol ysgolion uwchradd am y dulliau lluosieithog hyn yn ystod cyfnod paratoawl y Cwricwlwm i Gymru yn 2021. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 37 o athrawon ieithoedd Rhyngwladol ysgolion uwchradd yng Nghymru a oedd yn gweithio mewn ysgolion o wahanol categorïau iaith (gweler Llywodraeth Cymru (2021b) am y gwahanol categorïau iaith) ac ar draws 20 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ariannwyd yr ymchwil hwn ar y cyd rhwng **Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC** ac fe'i noddwyd gan **British Council Cymru**.

¹Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae ieithoedd Rhyngwladol yn cynnwys ieithoedd sy'n cael eu dysgu yn yr ysgol heblaw am y Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain, ieithoedd clasurol, ieithoedd cymunedol ac ieithoedd modern (Llywodraeth Cymru, 2021a).

²Yn y papur briffio hwn, cyfeirir yn bennaf at bynciau'r Gymraeg a Chymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg fel Cymraeg.

Prif Ganfyddiadau

1

Mae'r newid yn y derminoleg yn her i athrawon.

Mae credoau athrawon yn dynodi mai prin neu annigonol oedd eu hymwybyddiaeth o *luosieithrwydd* fel term, a arweiniodd at ddryswch ynghylch beth fyddai dulliau lluosieithog yn eu golygu yn ymarferol. Wedi dweud hynny, mae credoau athrawon hefyd yn awgrymu defnydd ymhlwg yr athrawon o ddulliau lluosieithog wrth addysgu, gydag athrawon yn fwy cyfarwydd â'r termau *amlieithrwydd* a *llythrennedd amlieithog/llythrennedd triphlyg*. Defnyddiwyd y term *llythrennedd amlieithog/llythrennedd triphlyg* mewn menter Llythrennedd Triphlyg blaenorol gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cysylltiadau addysgegol rhwng pynciau'r Gymraeg, Saesneg, Cymraeg Ail Iaith ac Ieithoedd Tramor Modern, fel y cyfeiriwyd atynt ar y pryd (Llywodraeth Cymru, 2011).

2

Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng gwahanol ieithoedd yn yr ystafell ddosbarth ieithoedd Rhyngwladol, ond gyda ffocws ar ieithoedd penodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn sôn am ddwyn sylw at y Gymraeg a Saesneg—ieithoedd cwricwlwm—er cymhariaeth â'r iaith a oedd yn cael ei haddysgu yn yr ystafell ddosbarth ieithoedd Rhyngwladol. Roedd ieithoedd eraill yn llai amlwg yn yr ystafell ddosbarth ieithoedd Rhyngwladol, oherwydd:

- Y ffocws ar gymharu ieithoedd sy'n debyg.
- Y gamdybiaeth bod angen i athrawon feddu ar sgiliau mewn iaith benodol cyn gallu tynnu sylw at yr iaith honno yn yr ystafell ddosbarth.
- Yr ansicrwydd ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am gynnwys ieithoedd cymunedol dysgwyr yn y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol.
- Yr hyn a etifeddwyd o fenter Llythrennedd Triphlyg blaenorol Llywodraeth Cymru ac felly'r nod o adeiladu cysylltiadau addysgegol rhwng yr iaith/ieithoedd Rhyngwladol a oedd yn cael eu haddysgu a Chymraeg a Saesneg yn unig.

3

Mae cydweithrediad yn bodoli rhwng athrawon y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol, ond mae amrywiad eang yn sgiliau ieithyddol dysgwyr a gwahanol ffyrdd at addysgu yn rhwystro cydweithrediad pellach.

Rhannodd athrawon Ieithoedd Rhyngwladol eu bod wedi cydweithredu i wahanol raddau gydag athrawon y Gymraeg a Saesneg wrth feddwl am gyfleoedd i gyfunioni elfennau addysgu'r Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol. Fodd bynnag, adroddodd rhai athrawon bod rhwystrau allweddol yn atal cydweithredu pellach ar draws y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol fel pynciau, gan gynnwys y rhesymau canlynol:

- A derbyn bod gan ddysgwyr amrywiol raddau o sgiliau ieithyddol ar draws y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol, roedd hi, ar adegau, yn anodd canfod cyfleoedd cydweithredu priodol ar draws y pynciau.
- A derbyn bod y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol yn aml yn cael eu haddysgu mewn gwahanol ffyrdd, roedd y gwahaniaethau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i athrawon ganfod cyfleoedd cydweithredu ystyrllon ar draws y pynciau.

Roedd rhai athrawon hefyd yn credu bod gan rai dysgwyr ddiffyg ymwybyddiaeth o'u sgiliau a'u gwybodaeth ieithyddol o ran y Gymraeg a Saesneg (yn enwedig fel pynciau iaith gyntaf). Roedd hyn, yn ei dro, yn rhwystro dysgwyr rhag defnyddio'u Gymraeg a'u Saesneg er budd dysgu Ieithoedd Rhyngwladol.

4

Er gwaethaf parodrwydd i dreialu dulliau lluosieithog, mae arholiadau TGAU yn parhau i fod yn brif bryder.

Tra bo'r rhan fwyaf o'r athrawon wedi cadarnhau eu bod yn treialu elfennau o ddulliau lluosieithog wrth addysgu Ieithoedd Rhyngwladol, arholiadau TGAU diwedd cyfnod addysg uwchradd yn 16 oed a oedd yn parhau i fod yn brif ystyriaeth i'r rhan fwyaf o athrawon wrth gynllunio addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn gyffredinol.

5

Casgliad: Mae ffactorau cydgysylltiedig yn rhwystro cyflenwi gweledigaeth luosieithog y Cwricwlwm i Gymru.

Yn ôl yr hyn a gredai'r athrawon yn yr astudiaeth, awgrymir mai'r prif rwystr i athrawon fetu â chyflenwi lluosieithrwydd yn llawn trwy'r cwricwlwm ydy'r groesfordd rhwng dryswch yr athrawon ynghylch lluosieithrwydd fel term, absenoldeb canllawiau clir a dysgu proffesiynol i ddefnyddio dulliau lluosieithog mewn addysgu, a rôl arholiadau.

Argymhellion

1 Maes allweddol ar gyfer datblygiadau polisi

Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ysgrifenedig pellach i ysgolion yng Nghymru ynghylch sut y gellir gweithredu dulliau lluosieithog wrth addysgu Cymraeg, Saesneg, ac leithoedd Rhyngwladol trwy'r Cwricwlwm i Gymru. Fe ddylid cyfathrebu hyn yn eang i athrawon, yn ogystal ag Uwch Dimau Arweinyddiaeth mewn ysgolion i'w hysbysu ymhellach am rôl lluosieithwydd oddi mewn i'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae cyfeirlyfr cyflym i addysgwyr ynghylch trawsieithu, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, eisoes wedi'i gyhoeddi (Thomas *et al.* 2022). Mae canllaw ysgrifenedig cyhoeddedig hefyd yn bodoli o gyfnod menter Llythrennedd Triphlyg Llywodraeth Cymru (e.e. *Cefnogi Llythrennedd Triphlyg* (Llywodraeth Cymru, 2011)). Gall y dogfennau hyn weithredu fel ysbrydoliaeth i ddatblygu canllawiau tebyg ar gyfer dulliau lluosieithog trwy'r Cwricwlwm i Gymru.

2 Maes allweddol ar gyfer datblygu arferion

Fe ddylid darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd sy'n cefnogi dulliau lluosieithog wrth addysgu i addysgwyr yng Nghymru, gyda chefnogaeth Uwch Dimau Arweinyddiaeth mewn ysgolion, awdurdodau lleol, ac awdurdodau a sefydliadau perthnasol eraill.

Fe ddylai gweithgareddau dysgu proffesiynol flaenoriaethu cyfleoedd lle bo addysgwyr sy'n gweithio ar draws gwahanol ieithoedd yn dod ynghyd i gydweithio. Fe ddylid darparu cyfleoedd i:

- Ymarferwyr ysgolion cynradd.
- Ymarferwyr ysgolion uwchradd y Gymraeg, Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg, Saesneg ac leithoedd Rhyngwladol.
- Ymarferwyr y Gymraeg fel iaith ychwanegol (CIY) a Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY).
- Athrawon dan hyfforddiant.
- Addysgwyr athrawon.

3 Maes allweddol ar gyfer datblygiadau ymchwil

Fe ddylai ymchwil pellach archwilio sut y gellid mewnosod dulliau lluosieithog ar draws y Gymraeg, Saesneg ac leithoedd Rhyngwladol, gan nodi meysydd ar gyfer datblygiadau tua'r dyfodol.

- Mae ymchwil ar addysg luosieithog eisoes yn cael ei gynnal mewn systemau addysg yng Nghanada, Catalonia a Gwlad y Basg, i enwi dim ond ambell gyd-destun (e.e. Cenoz, Leonet & Gorter, 2022; Cummins, 2021; Wilson & González-Davies, 2017), ac mae potensial i allu dysgu gwersi gan y systemau addysg hyn.
- Fe all holiaduron **Tueddiadau Ieithoedd Cymru** gan *British Council* Cymru ofyn i athrawon leithoedd Rhyngwladol am y ffordd y maen nhw'n gweithredu dulliau lluosieithog yn y dosbarth leithoedd Rhyngwladol a chydweithredu gydag athrawon y Gymraeg a Saesneg. Fe fyddai data arolwg o'r fath yn ein galluogi dros amser i olrhain arferion a adroddwyd, wrth i'r cwricwlwm barhau i gael ei weithredu.
- Fe all ymchwilwyr sy'n gweithio ar draws y Gymraeg, Saesneg ac leithoedd Rhyngwladol chwilio am gyfleoedd i gydweithredu er mwyn ymchwilio i ddulliau lluosieithog mewn dysgu, addysgu ac asesu o gydbersbectif y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cwricwlwm i Gymru.

Os hoffech gynnig eich sylwadau ar y pwyntiau a godwyd yn y papur briffio hwn, neu'n dymuno derbyn mwy o wybodaeth am ddatblygiadau ymchwil yn y maes hwn, cwblhewch ffurflen fer trwy'r ddolen gyswllt neu sganiwch y côd QR, a fydd yn fyw hyd ddiwedd 2025.



Dolen gyswllt: https://qualtrics.ucl.ac.uk/jfe/form/SV_cBk0nicmizjPyd0

Cyfeiriadau

British Council Cymru. (2024). *Tueddiadau leithoedd Cymru—ymchwil ar ddysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol*. <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> 25.06.24

Genoz, J., Leonet, O., & Gorter, D. (2022). Developing cognate awareness through pedagogical translanguaging. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25(8), 2759–2773. <https://doi.org/10.1080/13670050.2021.1961675>

Cummins, J. (2021). *Rethinking the education of multilingual learners*. Bristol: Multilingual Matters.

Llywodraeth Cymru. (2011). *Cefnogi llythrennedd triphlyg: dysgu iaith yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3*. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-2008/cyfnodau-allweddol-2-i-4/cefnogi-llythrennedd-triphlyg-dysgu-iaith-yng-nghyfnod-allweddol-2-a-chyfnod-allweddol-3/> 25.06.24

Llywodraeth Cymru. (2021a). *Maes dysgu a phrofiad: ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu—cyflwyniad*. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> 25.06.24

Llywodraeth Cymru. (2021b). *Categoriaddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. <https://www.llyw.cymru/categoriaddio-ysgolion-yn-ol-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg> 25.06.24

Llywodraeth Cymru. (2024). *Cwricwlwm i Gymru*. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/> 25.06.24

Thomas, E. M., Siôn, C. G., Jones, B., Dafydd, M., Lloyd-Williams, S., Tomos, Rh., Jones, L. M., Jones, D., Maelor, G., Evans, Rh., & Caulfield, G. (2022). *Trawsieithu yn y dosbarth: cyfeirlyfr cyflym i addysgwyr*. *Adnoddau Cydweithredol Cenedlaethol: Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor*. <https://hwb.gov.wales/api/storage/c0de79c5-c8dd-40a0-9aed-6a1741afa255/trawsieithu-yn-y-dosbarth.pdf?preview=true> 25.06.24

Wilson, J., & González-Davies, M. (2017). Tackling the plurilingual student/monolingual classroom phenomenon. *TESOL Quarterly*, 51(1), 207–219. <https://doi.org/10.1002/tesq.336>

Cydnabyddiaeth

Roedd yr astudiaeth ymchwil, sy'n sylfaen i'r papur briffio hwn, yn ffurfio rhan o PhD Dr Elin Arfon, a gwblhawyd yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd (2019–2023) ac a ariannwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC ac fe'i noddwyd gan *British Council* Cymru. Dymuna Elin ddiolch i'r sefydliadau hyn am yr holl nawdd a dderbyniwyd. Fe hoffai Elin hefyd ddiolch i'r holl ymarferwyr a gymerodd rhan yn yr astudiaeth hon am eu cyfraniadau amhrisiadwy, yn ogystal â chydweithwyr eraill am eu harweiniad a'u cefnogaeth. Gwnaed y papur briffio hwn yn bosibl diolch i nawdd a dderbyniodd Elin gan *UCL Research Culture* am gymryd rhan yn rhaglen *IOE's Early Career Researcher Impact Fellowship*.

Gwybodaeth Bellach a Manylion Cyswllt

Mae Dr Elin Arfon yn Gymrawd Ymchwil i'r *National Consortium for Languages Education* (NCLE), a ariennir gan y *Department for Education*, dan arweiniad *IOE, UCL's Faculty of Education and Society*, mewn cydweithrediad â'r *British Council* a'r *Goethe-Institut*.

Dyddiad: Mehefin 2024

E-bost: e.arfon@ucl.ac.uk

I gyfeirio at y papur briffio hwn yn y Gymraeg: Arfon, E. (2024). *Cefnogi athrawon i fabwysiadu dulliau lluosieithog mewn addysg ieithoedd yng Nghymru*. Llundain: IOE, UCL's Faculty of Education and Society. [defnyddiwch yr URL perthnasol].

Traethawd ymchwil PhD: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/166579>

